Gweinyddiaeth CYFIAWNDER

Ministry of JUSTICE

COFIADURON

Polisi, Gweithdrefnau a Thelerau ac Amodau Gwasanaeth

TELERAU AC AMODAU COFIADURON

Cyflwyniad

1. Yn ôl adran 21 Deddf Llysoedd 1971[1] gall y Goron benodi Cofiaduron ar argymhelliad yr Arglwydd Ganghellor i weithredu fel barnwyr Llys y Goron rhan-amser ac i ymgymryd â'r cyfryw swyddogaethau barnwrol eraill ag a roddir iddynt.

2. Yn y memorandwm hwn, ceir gwybodaeth am y telerau a'r amodau penodi, a dylai pawb sy'n derbyn penodiad ddeall y rhain a chytuno iddynt. Mae'r telerau a'r amodau hyn yn gywir fel ag y maent yn ymddangos ar y dyddiad a roddir ar ddiwedd y Memorandwm hwn, ond mae'n bosibl iddynt newid dan rai amgylchiadau.

Natur y swydd

3. Mae Cofiaduron yn eistedd yn Llys y Goron a'r llysoedd sirol. Mae eu hawdurdodaeth yn cyffelybu'n fras i awdurdodaeth Barnwr Cylchdaith, ond yn gyffredinol byddant yn ymdrin â materion llai cymhleth neu ddifrifol sy'n dod gerbron y llys. Mae gofyn i Gofiadur eistedd yn farnwrol am o leiaf 15 diwrnod y flwyddyn (a dim rhagor na 30 fel arfer), a dylai o leiaf 10 o'r diwrnodau hynny fod mewn un cyfnod parhaus os yw'n bosibl. Gall rhai Cofiaduron fod wedi eu hawdurdodi dan adran 9(1) Deddf Y Goruchel Lys 1981 i eistedd yn yr Uchel Lys er mwyn cwrdd ag angen busnes penodol.

Y Seiri Rhyddion

4. Yn dilyn ymateb y Llywodraeth i Adroddiad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar y Seiri Rhyddion yn yr Heddlu ac yn y Farnwriaeth, gofynnir i unrhyw un a benodir am y tro cyntaf i swydd farnwrol, fel un o amodau eu penodi, a ydynt yn perthyn i'r Seiri Rhyddion ac, os nad ydynt, eu bod yn rhoi gwybod i'r Arglwydd Ganghellor pe baent yn ymuno â'r Seiri Rhyddion ar ôl hynny. Rhaid i'r rhai sy'n dal swyddi barnwrol ddisgwyl y bydd y wybodaeth hon, o bosibl, yn ymddangos mewn cofrestr gyhoeddus.

Llwon

5. Bydd gofyn i Gofiaduron newydd gymryd y Llw Gwrogaeth a'r Llw Barnwrol cyn y caniateir iddynt eistedd. Rhaid cymryd y llwon hyn gerbron barnwr Llys Apêl neu Uchel Lys, neu Farnwr Cylchdaith[2]. Caiff hyn ei drefnu ar ôl y penodiad drwy gytundeb rhwng y Cofiadur a Swyddfa'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol unwaith y bydd y Warant Frenhinol wedi ei rhoi.

Hyd y Penodiad

6. Mae penodiad fel Cofiadur am gyfnod (adnewyddadwy) o bum mlynedd.

Adnewyddu Penodiad

7. Caiff penodiadau cofiaduron eu hymestyn yn awtomatig gan yr Arglwydd Ganghellor dan ad.21(4) Deddf Llysoedd 1971 am dymhorau olynol pellach o bum mlynedd, cyhyd ag y bo'r unigolyn yn cytuno i hynny ac yn amodol ar y terfyn oedran uchaf, oni bai fod cwestiwn ynglŷn â rheswm i beidio ag adnewyddu yn cael ei godi neu nad yw'r unigolyn mwyach yn bodloni'r amodau neu'r cymwysterau ar gyfer penodi.

8. Mae saith rheswm dros beidio ag ailbenodi:

1. anallu ogrwydd;
2. camymddygiad; gan gynnwys
   3. methiant parhaus i gydymffurfio â'r gofynion eistedd (heb reswm da);
   4. methu â chydymffurfio â gofynion hyfforddi;
   5. methiant cyson i gydymffurfio â'r safonau y gellid eu disgwyl o fewn rheswm gan ddeilydd swydd o'r fath;
6. rhan o ostwng niferoedd yn sgil newidiadau yn y gofynion gweithredol;
7. rhan o newid strwythurol er mwyn gallu recriwtio Cofiaduron newydd.

---

[1] *Fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 10 Deddf Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990*

[2] *Adran 22(2) Deddf Llysoedd 1971*

Yr Arglwydd Ganghellor fydd yn gyfrifol am bob penderfyniad i beidio ag adnewyddu ar sail 1-5 gyda chydsyniad yr Arglwydd Brif Ustus. Gwneir penderfyniadau o'r fath yn dilyn ymchwiliad a gynhelir gan farnwr a fydd yn adrodd i'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus.

9. Gwneir pob penderfyniad i beidio ag adnewyddu am resymau 6 neu 7 ar y sail mai'r "cyntaf i'w benodi fydd y cyntaf allan", a'r Arglwydd Ganghellor fydd yn penderfynu defnyddio'r cyfryw resymau ac i ba raddau y maent i'w defnyddio gyda chydsyniad yr Arglwydd Brif Ustus.

10. Gall Cofiaduron ddewis terfynu eu penodiad drwy ymddiswyddo neu drwy wrthod caniatáu i'r penodiad gael ei adnewyddu pan ddaw tymor i ben.

Y Terfyn Oedran Uchaf

11. Ni fydd yr Arglwydd Ganghellor fel rheol yn ymestyn swydd Cofiadur y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn ariannol pryd y bydd y Cofiadur yn cyrraedd 65 oed.

Hyfforddiant

Hyfforddiant Sefydlu Llys y Goron

12. Awdurdodir Cofiaduron i gael hyfforddiant yn y lle cyntaf a dim ond ar ôl iddynt gwblhau rhaglen sefydlu yn llwyddiannus yr awdurdodir nhw i eistedd. Mae'r rhaglen sefydlu yn cynnwys:

- mynd ar gwrs sefydlu preswyl a drefnir gan y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol
- ymweliadau ag o leiaf ddau sefydliad cosbi gan gynnwys carchar a sefydliad i droseddwyr ifanc
- cyfarfod gyda chynrychiolwyr o'r gwasanaeth prawf
- eistedd i mewn gyda barnwr cylchdaith (barnwr meistr tiwtor/disgybl) yn Llys y Goron am gyfnod o 5 diwrnod o leiaf i'r rheini sydd â phrofiad cyfredol o waith troseddol ac o leiaf 10 diwrnod i'r rheini sydd heb brofiad o'r fath, a threfnir o leiaf wythnos o'r cyfnod hwnnw cyn i'r Cofiadur fynd ar y cwrs sefydlu preswyl
- cyfnod o eistedd dan oruchwyliaeth

13. Mae'r ymweliadau â sefydliadau cosbi a chyfarfod â chynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Prawf wedi'u cynllunio fel eu bod yn berthnasol i'r swyddogaethau barnwrol y byddir yn eu harfer ac nid yw cyswllt arferol mewn ymarfer o ddydd i ddydd yn bodloni'r angen hwn.

14. Bydd y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol yn cysylltu â Chofiaduron ynglŷn â'r cwrs sefydlu. Mae yna waith cyn-cwrs i'w gwblhau, a rhoddir manylion y gwaith hwn gan y Bwrdd. Bydd Cyfarwyddwr Rhanbarthol y Rhanbarth y neilltuwyd y Cofiadur iddi yn cysylltu â'r Cofiadur ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer elfennau eraill yr hyfforddiant. Gall rhai misoedd fynd heibio cyn y bydd hyn yn digwydd ac ni ddylai Cofiaduron boeni ynglŷn â'r oedi.

15. Mae gofyn i Gofiaduron nad oes ganddynt ddim profiad troseddol diweddar, neu fawr ddim, eistedd am 10 diwrnod gyda Barnwr Cylchdaith yn Llys y Goron. Trefnir wythnos o'r cyfnod hwn cyn cwrs y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol a'r ail wythnos ar ôl y cwrs. Bydd gofyn i'r rheini sydd â phrofiad troseddol diweddar eistedd-i-mewn am wythnos ar ôl cwrs sefydlu'r Bwrdd. Gwneir y trefniadau ar gyfer pob cyfnod eistedd-i-mewn gan Swyddfa'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol neu Swyddfa'r Cyfarwyddwr Ardal.

16. Unwaith y bydd Cofiadur wedi derbyn gwahoddiad i gwrs penodol, ni ddylai dynnu'n ôl o'r cwrs hwnnw oni bai fod rheidrwydd annisgwyl neu frys i wneud hynny. Os gwneir hynny gan Gofiadur, efallai na chynigir lle iddo ar un o gyrsiau'r Bwrdd yn y dyfodol. Mae'r Arglwydd Ganghellor yn teimlo ei bod yn bwysig i'r cyfnod eistedd-i-mewn gyda Barnwr Cylchdaith, ymweliadau â charchar a'r cyfarfod â chynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Prawf ddigwydd **o fewn tri mis** i'r cwrs sefydlu. Rhaid i'r cyfnod eistedd dan oruchwyliaeth ddilyn cyn gynted â phosibl ar ôl i holl elfennau eraill y rhaglen

sefydlu (fel y'u disgrifir ym mharagraff 14 uchod) gael eu cwblhau'n foddhaol a bod y Cofiadur wedi 'tyngu'r llw' ar ôl iddo dderbyn ei Warant Frenhinol. Os na fydd elfennau eistedd-i-mewn, cyfarfod, ymweliadau ac eistedd dan oruchwyliaeth y rhaglen wedi eu cwblhau o fewn 6 mis i'r cwrs, efallai y bydd gofyn i'r Cofiadur fynd ar ail gwrs. **Ymrwymiad personol ar ran darpar Gofiaduron a Chofiaduron mewn swydd yw'r ymrwymiad hyfforddi ac eistedd ac mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus o'r farn mai cyfrifoldeb personol y Cofiadur (ac nid ei glerc/ysgrifenyddes) yw sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau. Os yw Cofiadur yn cyfarwyddo person arall i wneud trefniadau ar ei ran, rhaid gwneud yn glir i'r person hwnnw'r flaenoriaeth y mae'n rhaid ei rhoi i'r ymrwymiadau hyfforddi ac eistedd hyn.**

17. Fel rhan o'r hyfforddiant sefydlu mae gofyn i'r barnwr meistr tiwtor/disgybl roi adroddiad byr ar yr eistedd-i-mewn, gan nodi pa un a yw'r Cofiadur, yn ei farn ef, yn barod i eistedd ar ei ben ei hun ai peidio. Rhoddir yr adroddiad hwn cyn y cyfnod eistedd o dan oruchwyliaeth, gan na chaiff Cofiadur eistedd hyd nes y bydd yr Arglwydd Ganghellor wedi rhoi ei ganiatâd a bod y Cofiadur wedi 'tyngu'r llw' ar ôl iddo dderbyn ei Warant Frenhinol.

18. Wedi hynny, yn ystod y cyfnod eistedd dan oruchwyliaeth, bydd Barnwr Cylchdaith yn arsylwi ar y Cofiadur am gyfnod byr.

<u>Hyfforddiant Sefydlu Llysoedd Sirol</u>

19. Ar ôl cyfnod penodol, 18 – 24 mis fel arfer, yn eistedd fel Cofiadur yn Llys y Goron, efallai y caiff deiliaid swyddi wahoddiad gan y Cyfarwyddwr Rhanbarthol i eistedd yn y llysoedd sirol. Cyn cael eu hawdurdodi, rhaid ymgymryd â rhaglen sefydlu sifil (debyg i'r rhaglen sefydlu droseddol a amlinellwyd uchod). Mae hyn yn cynnwys mynychu cwrs sefydlu sifil preswyl y Bwrdd Astudiaethau, eistedd-i-mewn am bum niwrnod gyda Barnwr Rhanbarth cyn y seminarau a chyfnod o bum niwrnod o leiaf o wythnos eistedd-i-mewn mewn llys sirol dan arweiniad barnwr meistr tiwtor/disgybl ar ôl y seminar. Mae gofyn i'r barnwr meistr tiwtor/disgybl y mae'r Cofiadur yn eistedd-i-mewn gydag ef roi adroddiad ar yr wythnos eistedd-i-mewn ac wedi hynny, os yw'r adroddiad yn foddhaol, caiff y Cofiadur ei awdurdodi i eistedd mewn llysoedd sirol, gan ymgymryd yn gyntaf â'r wythnos eisteddiadau o dan oruchwyliaeth. Megis gyda'r hyfforddiant i Lys y Goron, ceir cyfnod byr o arsylwi yn ystod yr wythnos o dan oruchwyliaeth.

Penodiadau Cofiadur Sifil yn unig

20. Awdurdodir rhai Cofiaduron gan yr Arglwydd Ganghellor i eistedd mewn llysoedd sirol yn unig. Cyn cael eu hawdurdodi i eistedd yn y llysoedd sirol, rhaid iddynt gwblhau rhaglen sefydlu sifil. Rhaid i'r cyfnod eistedd dan oruchwyliaeth ddilyn cyn gynted â phosibl ar ôl i holl elfennau eraill y rhaglen sefydlu sifil gael eu cwblhau'n foddhaol a bod y Cofiadur wedi 'tyngu'r llw' ar ôl iddo dderbyn ei Warant Frenhinol.

Mynychu Seminarau Barnwrol

21. Mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus yn disgwyl i Gofiaduron, pan gânt wahoddiad, fynychu hyfforddiant parhad preswyl a drefnir gan y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol, yn ogystal â chynadleddau dedfrydu undydd y gylchdaith a drefnir gan y Barnwyr Llywyddol. Gall amser a dreulir yn y digwyddiadau hyn gyfrif tuag at yr ymrwymiad eistedd blynyddol.

Trefniadau ar gyfer Eisteddiadau

22. Nid yw Deddf Llysoedd 1971 yn rhoi unrhyw gyfyngiadau ar awdurdodaeth diriogaethol Cofiaduron; gallant, felly, eistedd yn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr, er y cânt eu neilltuo i Ranbarth am resymau gweinyddol. Pennir y canolfannau y disgwylir i Gofiaduron eistedd ynddynt drwy gytundeb gyda Swyddfa'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol perthnasol. Mae yna ymrwymiad ymhlyg yn y penodiad i eistedd mewn unrhyw ganolfan llys yn y wlad i arfer yr awdurdodaeth berthnasol. Ni ddylid tybio bod hynny'n cyfleu disgwyliad o ran lefel benodol o eisteddiadau i'r dyfodol, nac unrhyw lefel o eisteddiadau i'r dyfodol mewn lleoliad neilltuol.

23. Yn ôl adran 21(3) Deddf Llysoedd 1971 mae'n rhaid i benodiadau Cofiaduron bennu am ba gyfnod y'u penodir a pha mor fynych yn ystod cyfnod y penodiad ac am ba hyd o amser y bydd gofyn iddynt fod ar gael i ymgymryd â'u dyletswyddau barnwrol, oni hysbysir nhw yn swyddogol i'r gwrthwyneb.

Diwrnodau Eistedd

24. Bydd gan Gofiaduron hawl i gael cynnig o leiaf 15 diwrnod eistedd ym mhob blwyddyn ariannol. Mae gofyn i Gofiadur eistedd yn farnwrol am o leiaf 15 diwrnod y flwyddyn a dim rhagor na 30 diwrnod fel arfer. Mae'r Arglwydd Ganghellor yn disgwyl i Gofiaduron gyflawni'r gofyniad isaf o ran diwrnodau eistedd oni wneir hynny'n amhosibl, o dan amgylchiadau eithriadol, am fod y Cofiadur yn ysgwyddo dyletswyddau cyhoeddus eraill. Disgwylir i staff Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi gymryd amgylchiadau ac ymrwymiadau Cofiaduron i ystyriaeth wrth alw am eu gwasanaeth. **Cyfrifoldeb personol y Cofiadur (ac nid ei glerc/ysgrifenyddes) yw sicrhau ei fod yn cyflawni'r rhwymedigaeth arno o ran y gofyniad eistedd isaf.** Gallai'r ffigyrau hyn gael eu haddasu'n gyffredinol o bryd i'w gilydd, yng ngoleuni amgylchiadau gweithredol: caiff unrhyw newidiadau eu cyhoeddi. Os yw'n bosibl dylai o leiaf 10 diwrnod fod mewn un cyfnod di-dor. Fel arfer rhaid i'r gweddill fod mewn cyfnodau di-dor o 5 diwrnod o leiaf.

25. Cyn gynted ag y maent wedi eu hawdurdodi i eistedd, disgwylir i Gofiaduron eistedd mewn un neu fwy o ganolfannau llys a threfnu eu heisteddiadau ymlaen llaw yn unol â'r drefn a bennwyd ar y Rhanbarth y maent wedi eu neilltuo iddi. Yn amodol ar anghenion y llysoedd, efallai y caiff Cofiaduron eu gwahodd i eistedd am fwy na'r isafswm diwrnodau sy'n ofynnol, ond ni fyddant fel arfer yn eistedd am ragor na 30 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn. Gellir cyfrif amser a dreulir yn eistedd fel dirprwy farnwr Uchel Lys, barnwr Llys Apêl Jersey neu Guernsey neu Lys Apêl Ynys Manaw neu fel aelod o Fwrdd Parôl neu Gyfyngedig ar Banel Cleifion y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl, tuag at y diwrnodau eistedd blynyddol. Mae'r amser a dreulir mewn digwyddiadau hyfforddi neu'n eistedd-i-mewn hefyd yn cyfrif tuag at yr ymrwymiad eistedd blynyddol.

26. Pennir y dyddiadau pryd y bydd gofyn i Gofiaduron eistedd drwy gytundeb rhyngddynt hwy a'r Grŵp Llysoedd dan sylw.

Swyddi Cofiadur Anrhydeddus

27. Mae adran 54 Deddf Llysoedd 1971 yn rhoi'r grym i gyngor dosbarth y rhoddwyd iddo statws bwrdeistref i benodi person (y mae'n rhaid fel arfer iddo fod yn Farnwr Cylchdaith neu'n Gofiadur) i fod yn Gofiadur Anrhydeddus y Fwrdeistref. Mae'r penodiadau hyn o fewn disgresiwn y cynghorau perthnasol yn llwyr ac nid ydynt yn fater i'r Arglwydd Ganghellor. Pe byddai Cofiaduron yn derbyn penodiadau o'r fath efallai na fydd yn bosibl i'r Arglwydd Brif Ustus gytuno ym mhob achos y dylent gael yr hawl i dreulio'r cyfan, neu hyd yn oed ran, o'u hamser yn eistedd yn y fwrdeistref honno. Bydd penodiadau o'r fath yn cael eu hystyried, fodd bynnag, fel ffactor perthnasol pan gytunir ar eisteddiadau rhwng y Cofiadur a'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol a Chyfarwyddwr Ardal y Llys.

Ymrwymiadau'n Gwrthdaro

28. Unwaith y bydd Cofiadur wedi cytuno ar ei ddyddiadau eistedd gyda'r Swyddfa Ranbarthol, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylai dynnu'n ôl o'r trefniadau a bydd disgwyl iddo gadw'r dyddiadau hyn yn rhydd o ymrwymiadau eraill. Pe digwydd fod eisteddiadau barnwrol sydd wedi eu cynllunio yn gwrthdaro'n annisgwyl ag ymrwymiad proffesiynol, dylai Cofiadur wrthod yr olaf cyhyd â'i fod yn gallu gwneud hynny heb danseilio buddiannau ei gleientiaid lleyg. Os yw hynny'n amhosibl, bydd yn rhaid rhoi blaenoriaeth i'w ymrwymiad proffesiynol, ond dylid rhoi cymaint o rybudd â phosibl i Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi i'w gwneud yn fwy tebygol y gellir cael rhywun arall i eistedd yn ei le.

Gwrthdaro rhwng Buddiannau

29. Yr egwyddor bennaf yw na ddylai neb eistedd mewn swydd farnwrol dan unrhyw amgylchiadau a fyddai'n arwain person gwrthrychol sy'n bresennol, ac sy'n gwybod yr holl ffeithiau perthnasol, i amau o fewn rheswm y gallai'r person fod yn unochrog. Fel egwyddor gyffredinol, felly, ni ddylai bargyfreithiwr/wraig nac adfocad sy'n dwrnai eistedd fel Cofiadur, nac ymddangos gerbron llys sirol, nac mewn man arall, os yw hi'n debygol, trwy wneud hynny, y gellid codi cywilydd arno ef neu hi yn y naill swydd neu'r llall. Yn arbennig, ni ddylai o dan unrhyw amgylchiadau ymddangos mewn unrhyw lys gerbron rheithgor sy'n cynnwys aelodau o banel rheithwyr a oedd yn gwasanaethu yn y llys hwnnw pan oedd yn eistedd yno fel Cofiadur, na fel arall.

30. Fel rheol gyffredinol, byddai'n annymunol i'r rhai sy'n dal swydd farnwrol sy'n derbyn ffi, ac sy'n dwrneiod eistedd mewn llys lle maent hwy, neu unrhyw bartner neu gyflogai iddynt, yn ymarfer yn rheolaidd. Diben hynny yw eu helpu i osgoi cael eu dynodi i ddyfarnu mewn achos (neu nifer o achosion) lle byddai'n ofynnol iddynt dynnu'n ôl. Os bydd deilydd swydd farnwrol sy'n derbyn ffi sy'n dwrnai yn eistedd mewn llys o'r fath yna mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus o'r farn mai cyfrifoldeb personol y deilydd swydd farnwrol (nid staff y llys) yw sicrhau, cyn belled ag y mae hynny'n bosibl, ei fod yn osgoi unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau a allai ei gwneud yn ofynnol iddo dynnu'n ôl o achos neilltuol.

31. Deiliaid swydd farnwrol sy'n derbyn ffi:-

(i) ni ddylent eistedd ar achosion y mae gan eu cwmni neu eu cleientiaid ran ynddynt, neu lle y gallai hyn, fel arall, beri i bobl gredu bod rhagfarn yn y modd y gweinyddir cyfiawnder.

(ii) dylent gydymffurfio â'r gyfraith achosion bresennol sy'n rheoli buddiannau ariannol neu, fel arall, wrth benderfynu a ydynt am ddatgan bod ganddynt fuddiant mewn achos penodol, neu dynnu'n ôl ohono e.e. "Locabail (UK) Ltd v Bayfield Properties Ltd and Another [2000] Q.B. 451; Yn par Medicaments and Related Classes of Goods (Rhif 2) [2001] 1 W.L.R. 700; a Lawal v Northern Spirit Limited [2003] UKHL 35."

(iii) ni ddylent eistedd ar achos os oes ganddynt fuddiant personol, proffesiynol neu ariannol yn yr achos hwnnw; neu os oes gan unrhyw fusnesau neu bractisiau y maent yn aelod ohonynt mewn unrhyw swyddogaeth fuddiant o'r fath.

32. Disgwylir i ddeiliaid swyddi barnwrol sy'n derbyn ffi ymatal rhag unrhyw weithgarwch, boed hwnnw'n wleidyddol neu fel arall, a fyddai'n gwrthdaro gyda'u swydd farnwrol neu'n cael ei ystyried yn rhywbeth a fyddai'n peryglu eu gallu i fod yn ddiduedd, gyda golwg, er enghraifft, ar sylwadau'r Llys Apêl yn achos Locabail. Ni ddylai Cofiadur sy'n AS, yn ymgeisydd Seneddol neu'n Gynghorydd lleol eistedd fel Cofiadur o fewn ei etholaeth ei hun na'r ardal a wasanaethir gan y Cyngor. Dylent hefyd fod yn ymwybodol y gallai eraill gael yr argraff nad ydynt yn ddiduedd yn sgil erthyglau neu ddatganiadau cyhoeddus a gyhoeddir, ayb. (Timmins v Gormley [(2000) 2 WLR 870]). Dylai'r rhai sy'n dal swyddi barnwrol sy'n derbyn ffi fod yn ofalus wrth gyfeirio at eu penodiad ar benllythyrau, er enghraifft, neu yn llenyddiaeth hysbysebu'r siambrau. Dim ond tra maent yn gwasanaethu'n farnwrol y mae'r rheini sydd â swyddi sy'n talu ffi yn dal eu swydd ac ni ddylent ddefnyddio eu penodiad fel modd o geisio mantais bersonol, broffesiynol na masnachol.

Gwisg

33. Disgwylir i Gofiaduron wisgo eu gynau proffesiynol arferol tra'n eistedd. Dylai twrneiod sy'n eistedd fel Cofiaduron wisgo wig bargyfreithiwr iau hefyd.

Ymddygiad Barnwrol

34. Mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus o'r farn bod y cyhoedd yn haeddu, ac yn disgwyl, y safon ymddygiad gorau posibl gan y rhai sydd mewn swyddi barnwrol. Heb darfu ar y paragraffau isod, dylai Cofiadur hysbysu'r Arglwydd Brif Ustus cyn gynted ag sy'n bosibl os yw'n ymwybodol o unrhyw fater sy'n ymwneud ag ymddygiad

a allai amharu ar ei sefyllfa neu a allai adlewyrchu ar statws neu enw da'r farnwriaeth yn gyffredinol.

35. Dylai Cofiadur hefyd hysbysu'r Arglwydd Prif Ustus hefyd os caiff ei hun mewn anawsterau ariannol difrifol, yn enwedig os yw'n debygol y caiff achos cyfreithiol ei ddwyn yn ei erbyn, neu os yw hynny eisoes wedi digwydd. Dylent hysbysu'r Arglwydd Brif Ustus hefyd o unrhyw gŵyn a wnaed yn eu herbyn gan eu corff proffesiynol, boed honno'n gysylltiedig â'u gwaith proffesiynol neu farnwrol. Rhaid i'r bobl sy'n dal swyddi roi gwybod i'r Arglwydd Brif Ustus os ydynt yn gysylltiedig ag achos llys o unrhyw fath, neu'n debygol o fod yn gysylltiedig ag unrhyw achos llys.

36. Os caiff Cofiadur ei gyhuddo o unrhyw dramgwydd troseddol neu ei rybuddio yng nghyswllt tramgwydd o'r fath, ar wahân i drosedd parcio neu oryrru heb amgylchiadau gwaethygedig, boed hynny cyn neu ar ôl iddo gael ei awdurdodi i eistedd fel Cofiadur, dylai roi gwybod i'r Arglwydd Brif Ustus ar unwaith am y mater a pharhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am hynt a chanlyniad yr achos. Gallai peidio â gwneud hynny gyfateb mewn rhai achosion, ynddo'i hun, prima facie i gamymddygiad. Nid oes rhaid ystyried, o anghenraid, fod euogfarnau am rai troseddau, gan gynnwys rhai materion sy'n ymwneud â gyrru car, yn golygu na ellir parhau i ddal swydd farnwrol. Fodd bynnag, pe ceid deilydd swydd farnwrol yn euog o drosedd difrifol, er enghraifft, un sy'n gysylltiedig â thrais tuag at eraill, anonestrwydd neu ysgelerder moesol, byddai'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus yn ystyried fod ganddynt achos i weithredu eu pwerau i ddiswyddo'r unigolyn dan sylw o'i swydd ar sail camymddygiad; ac mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus yn ystyried euogfarn am drosedd o yrru dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau yn un mor ddifrifol fel ag y bo'n cyfateb, prima facie, i gamymddygiad.

37. Cred yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus fod gan y cyhoedd hawl sylfaenol i ddisgwyl y bydd pawb sy'n dal swydd farnwrol yn cynnal safonau priodol o ran cwrteisi a bod yn ystyriol bob amser. Nid ydynt yn ystyried bod ymddygiad a allai beri tramgwydd, yn enwedig am resymau hiliol neu grefyddol, neu sy'n cyfateb i aflonyddu rhywiol, yn gydnaws â'r safonau a ddisgwylir gan y rhai sy'n dal swydd farnwrol. Yn eu barn hwy, gellid ystyried cwyn sydd wedi'i chadarnhau am ymddygiad o'r math hwn, boed cwynion wedi'u gwneud o'r blaen ai peidio, yn gamymddygiad.

38. Rheolir pwerau disgyblu'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus gan y rheoliadau a wnaed gan yr Arglwydd Brif Ustus dan adran 115 ac 117 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005. Y maent yn galluogi i unrhyw sylwadau y gallai'r deiliad swydd ddymuno'u gwneud ar y mater, gael eu cymryd i ystyriaeth yn llawn. Ni fydd yr Arglwydd Ganghellor na'r Arglwydd Brif Ustus yn ystyried gweithredu'r pwerau a roddwyd iddynt mewn perthynas ag ymddygiad barnwrol heb reswm difrifol i wneud hynny ac ar ôl rhoi ystyriaeth ddwys i'r mater.

Tynnu o swydd

39. Yn ôl adran 21(6) Deddf Llysoedd 1971 gall yr Arglwydd Ganghellor derfynu penodiad Cofiadur am resymau penodol os yw o'r farn bod hynny'n briodol. Mae pum sail ar gyfer diddymu penodiad:

1. anallu ogrwydd;
2. camymddygiad; gan gynnwys
   3. methu â chydymffurfio â gofynion hyfforddi;
   4. methiant parhaus i gydymffurfio â'r gofynion eistedd (heb reswm da);
   5. methiant cyson i gydymffurfio â'r safonau y gellid eu disgwyl o fewn rheswm gan ddeilydd swydd o'r fath;

Yr Arglwydd Ganghellor, gyda chydsyniad yr Arglwydd Brif Ustus, sy'n gwneud pob penderfyniad i ddiswyddo unigolyn. Caiff penderfyniadau o'r fath eu gwneud yn unol â'r gweithdrefnau yn y Rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 38 uchod.

Ffioedd

40. Nid oes cyflog na phensiwn ynghlwm wrth y penodiad. Bydd Cofiaduron yn derbyn ffi am bob diwrnod a eisteddir. Y tâl ar hyn o bryd yw £560 y diwrnod. Caiff y ffioedd hyn eu hadolygu o bryd i'w gilydd. Yn unol ag argymhelliad y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion, cyfrifir y ffioedd drwy rannu cyflog swydd amser llawn gyfatebol gyda 220. Effaith y rhannydd hwn yw bod lwfans pro rata am wyliau blynyddol a gwyliau cyhoeddus a braint yn cael ei ymgorffori yn y ffi diwrnod. Mae yna hefyd ffi diwrnod o hanner y gyfradd diwrnod am eistedd-i-mewn gyda Barnwr Cylchdaith a mynd ar gyrsiau preswyl y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol, er na thelir ffi am ymweld â sefydliadau cosbi a chwrdd â chynrychiolwyr y Gwasanaeth Prawf. Ni fydd ffi cadw flynyddol yn daladwy, ond cyhyd ag y bo Cofiaduron ar gael i eistedd am y nifer lleiaf o ddiwrnodau sydd i'w cynnig iddynt o dan y penodiad hwn yna bydd ganddynt hawl i gael eu talu pa un y cânt eu galw i eistedd mewn gwirionedd ai peidio. Ar yr amod hwnnw, fodd bynnag, ni chaniateir tâl am eisteddiadau sy'n cael eu canslo ond o dan amgylchiadau arbennig, er enghraifft, lle bo'r Cofiadur eisoes wedi teithio i'r man lle'r oedd i fod i eistedd cyn iddo gael ei hysbysu bod yr eisteddiad wedi'i ganslo. Mae Cofiaduron a awdurdodir i eistedd yn yr Uchel Lys yn derbyn y ffi ddyddiol sy'n briodol i Ddirprwy Farnwr Uchel Lys.

41. Mae'n egwyddor gyffredinol na fydd gweision y Goron sy'n derbyn cyflog fel rheol yn derbyn tâl ychwanegol am swyddi cyhoeddus sydd ganddynt, neu waith a wnânt, ar yr un pryd ar sail derbyn ffi. Er y bydd amgylchiadau'n codi (e.e. lle gellir dangos bod yr eisteddiadau barnwrol yn digwydd yn ystod cyfnod o wyliau heb dâl oddi wrth y brif swydd neu gyflogaeth) pan all ffioedd eistedd dyddiol fod yn daladwy, yn gyffredinol ni fydd deiliaid swyddi cyhoeddus llawn-amser na gweision cyhoeddus a delir gan Lywodraeth Ganolog yn derbyn unrhyw dâl am swyddi barnwrol lle telir ffi sy'n cael eu dal ar yr un pryd.

42. Disgwylir i ddeiliaid swyddi barnwrol sy'n derbyn ffi ac sy'n ymarferwyr neu'n weithwyr yn y sector preifat fod yn agored ac yn dryloyw gyda'u cwmni, eu siambrau neu eu prif gyflogwr o ran y trefniadau, gan gynnwys y trefniadau ariannol, sy'n ymwneud â'u penodiad barnwrol. Mae'n hanfodol bod trefniadau talu, ac unrhyw ansicrwydd ynghylch amgylchiadau unigol penodol, yn cael eu datrys adeg penodi neu ar y cyfle cyntaf yn dilyn newid sylweddol mewn amgylchiadau yn ystod cyfnod o wasanaeth. Mae'r un disgwyliadau'n berthnasol i'r sawl sy'n dal swydd farnwrol sy'n derbyn ffi ac a gyflogir gan lywodraeth leol neu sy'n swyddogion mewn llywodraeth leol.

Cyfraniadau Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol

43. Ystyrir bod Cofiaduron yn dal swydd at ddibenion treth ac Yswiriant Gwladol. O ganlyniad, bydd y ffioedd taladwy yn drethadwy dan Atodlen E y Ddeddf Drethi a bydd cyfraniadau Dosbarth 1 Yswiriant Gwladol yn daladwy arnynt. Caiff y rhain eu tynnu drwy system cyflogres y Weinyddiaeth Cyfiawnder a thelir y ffi net i ddeilydd y swydd. Nid yw'r ffioedd yn destun TAW.

44. Efallai y dymunai'r rhai sy'n dal swyddi fod yn ymwybodol bod Cyllid a Thollau EM yn barod, dan rai amgylchiadau, a thrwy ymarfer gweinyddol, i ystyried enillion o swydd a ddelir gan rywun sydd hefyd yn weithiwr proffesiynol mewn cwmni preifat yn enillion proffesiynol cyffredin o fewn Achos II Atodlen D. Dylai'r swydd-ddeiliaid hynny sy'n dymuno derbyn manylion pellach am yr ymarfer hwn gysylltu â Swyddfa Cyllid a Thollau EM neu edrych ar y wefan yn www.hmrc.gov.uk. Serch hynny, y mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi hysbysu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ei bod yn annhebygol y bydd swyddi Cofiadur ar sail ffioedd yn gymwys ar gyfer y trefniant gweinyddol hwn oherwydd na fyddid yn bodloni'r amod y "ceid anawsterau ymarferol pe defnyddid E ar gyfer y ffioedd a dderbynnir" gan fod y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gallu prosesu'r taliadau trwy ei system gyflogres.

45. Er hynny, pe digwyddid mabwysiadu'r trefniant, mewn achosion eithriadol, bydd yr Arolygwr/wraig yn cyflwyno cod 'Dim Treth' i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac ni chaiff treth Atodlen E ei thynnu o'r ffi. Dylid cynnwys y ffioedd wedyn yn ffurflen dreth Hunanasesiad y sawl sy'n dal y swydd ochr yn ochr â ffioedd Atodlen D eraill a

dderbynnir. Bydd cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1, fodd bynnag, yn parhau i gael eu tynnu o'r ffi yn ddarostyngedig i baragraff 46 isod gan nad yw mabwysiadu'r trefniant hwn yn effeithio ar y cyfrifoldeb i dalu'r cyfraniadau.

46. Er mai cyfrifoldeb y rhai sy'n dal swyddi sy'n derbyn ffi yw trefnu materion gyda Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyllid a Thollau EM, dealla'r Weinyddiaeth Cyfiawnder fod ganddynt yr hawl i gyflwyno cais i ohirio talu cyfraniadau cyn dechrau blwyddyn dreth newydd neu yn ystod blwyddyn dreth gyfredol neu i gyflwyno cais am ad-dalu cyfraniadau gormodol o'r flwyddyn flaenorol. Gellir cael manylion pellach trwy gysylltu â'r Grŵp Gohirio yn Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyllid a Thollau EM, Longbenton.

47. Er mwyn osgoi dryswch, byddai'n fuddiol, wrth ohebu gyda Chyllid a Thollau EM ynghylch ffioedd a lwfansau sydd i'w priodoli i unrhyw swydd sy'n derbyn ffi, a chyda Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyllid a Thollau EM ynghylch gohirio taliad neu ad-dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol, pe bai'r rhai sy'n dal swyddi yn enwi'r Tribiwnlys priodol neu swyddfa ranbarthol ar gyfer barnwriaeth Llys fel cyfeiriad yr awdurdod sy'n talu ffi, gan sôn eu bod yn dal swyddi, ac nad ydynt yn gyflogedig gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth Noson

48. Mae'n bosibl y bydd costau teithio a, dan rai amgylchiadau, lwfansau cynhaliaeth dros nos, yn daladwy yng nghyswllt eisteddiadau, mynychu cyrsiau hyfforddi, ayb. Bydd manylion y rheolau sy'n pennu'r lwfansau hyn ar gael gan y Cyfarwyddwr Rhanbarthol neu Gyfarwyddwr yr Ardal. Mae'n bosibl y bydd y rheolau a chyfraddau'r lwfansau hyn yn newid o bryd i'w gilydd, a rhoddir gwybod ynghylch unrhyw newidiadau o'r fath. Mae'n bosibl hefyd y bydd rheolau treth Cyllid a Thollau EM sy'n pennu'r ffordd y caiff y lwfansau hyn eu trin o safbwynt treth a chyfraddau'r lwfansau, yn newid, a rhoddir gwybod i ddeiliaid swyddi ynghylch unrhyw newidiadau o'r fath.

Preswyliaeth

49. Fodd bynnag, bydd unrhyw benodiad ar ôl 1 Ionawr 2008 yn amodol ar i'r Arglwydd Ganghellor gael ei fodloni y bydd y person, adeg penodi, yn byw o fewn pellter teithio rhesymol bob dydd i'r llysoedd y bydd yn eistedd ynddynt fel rheol.

Trosglwyddiadau

50. Pan benodir unigolyn i swydd Cofiadur ar ôl 1 Ionawr 2008, fel rheol ni ystyrir cais i drosglwyddo i gylchdaith arall cyn i'r Cofiadur dreulio 5 mlynedd ar y cylchdeithiau y'u penodwyd ar eu cyfer.

Absenoldeb Mamolaeth, Tadolaeth a Mabwysiadu a Thâl Salwch Statudol

51. Mae gan ddeiliaid swydd farnwrol sy'n cael ffi hawl i absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu a thâl salwch statudol. Darperir manylion gweithredu'r hawliadau hyn i'r swydd-ddeiliad fel sy'n briodol.

Arweiniad ynghylch y Cyfryngau.

52. Darperir arweiniad am y berthynas â'r cyfryngau gan y Swyddfa Cysylltiadau Barnwrol (SCB). Mae'r SCB yn darparu cefnogaeth gyfathrebu i ddeiliaid swyddi barnwrol yng Nghymru a Lloegr (gan gynnwys barnwyr cyflog a barnwyr sy'n derbyn ffi, aelodau tribiwnlysoedd ac ynadon). Mae hyn yn cynnwys cyngor ar faterion yn ymwneud â'r cyfryngau megis adroddiadau anghywir a cheisiadau am gyfweliadau; yn ogystal â gwefan farnwrol allanol, mewnrwyd a chylchlythyr ar gyfer y farnwriaeth. Lleolir y SCB yn y Llysoedd Barn Brenhinol, mae'n atebol i'r Arglwydd Brif Ustus ac yn annibynnol ar unrhyw swyddfa'r wasg o eiddo'r Llywodraeth. Mae tîm cyfryngau'r SCB ar gael ar 020 7073 4852, ffacs 020 7947 6544 neu e-bost press.enquiries@judiciary.gsi.gov.uk. Rhif y negesydd y tu allan i oriau swyddfa yw 07659 550652.

Cyngor

53. Mae croeso i ddeiliaid swydd farnwrol ymgynghori a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder neu Swyddfa Farnwrol Cymru a Lloegr (fel y bo'n briodol) ar unrhyw faterion sy'n ymwneud

â phenodiadau barnwrol. Dylid cyfeirio ymholiadau am hyfforddiant barnwrol at y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol ar 020 7217 4762, ac ymholiadau'r cyfryngau at Swyddfa Cysylltiadau Barnwrol yr Arglwydd Brif Ustus ar 020 7947 6438.

Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
Hydref 2007